STRATEGAETH
PRIFYSGOL CAERDYDD
2009/10 I 2013/14

EIN GWELEDIGAETH

Byddwn yn un o'r prifysgolion mwyaf blaenllaw yn y byd a chanddi gymuned academaidd a fydd yn cael ei chydnabod ar sail ei rhagoriaeth a'i heffaith yn rhyngwladol

Prifysgol sy'n ddwys o ran ymchwil yw Prifysgol Caerdydd ac mae'n gweithredu ar lwyfan rhyngwladol. Yn sgil ein gweledigaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil, ein haelodaeth yng Ngrŵp Russell, ehangder a dyfnder yr addysg rydyn ni'n ei darparu a'n gallu i greu effaith gynaliadwy ar yr economi, y gymdeithas a diwylliant, mae gennyn ni le unigryw mewn addysg uwch yng Nghymru.

Rydyn ni'n credu bod deilliannau'n gwaith ymchwil, ein haddysg a'n harloesi a'n gweithgareddau ymgysylltu yn fwyaf grymus pan fydd yna gysylltiad annatod rhwng y ffrydiau craidd hyn a phan fyddan nhw'n cyfnerthu ei gilydd. Mae'n Gweledigaeth yn cydnabod bod llwyddiant Prifysgol Caerdydd wedi'i adeiladu ar lwyddiannau ei staff a'i myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd.

I ddod â'n Gweledigaeth yn nes, mae rhagoriaeth academaidd sydd â'i wreiddiau mewn ymchwil ac ysgolheictod o'r safon orau yn y byd yn flaenoriaeth ddiamod. Gan fynd ymhellach â'r rheidrwydd hwnnw, rydyn ni wedi nodi dau faes i'w pwysleisio ar hyn o bryd:

- Cynnydd yn ein cymuned ôl-raddedig - gan gydnabod yn benodol werth cymuned ymchwil ôl-raddedig fawr a bywiog ar gyfer diwylliant ymchwil a chanolfan ymchwil gref a chynaliadwy;
- Cynnydd yn ein rhychwant a'n heffaith ryngwladol - gan sicrhau bod rhyngwladoli wedi'i blannu'n gadarn yn ein gweithgareddau mewn modd strategol a chynaliadwy sy'n cynyddu'r manteision i'r Brifysgol ac i Gymru gymaint â phosibl.

CYFLAWNI'N GWELEDIGAETH

Y grym sy'n gyrru'n Gweledigaeth yw ein hymrwymiad i gyrraedd y safonau rhyngwladol uchaf mewn ymchwil ac addysg ac i ddarparu amgylchedd cyfoethog ac amrywiol, wedi'i seilio ar ymchwil, lle y gall yr holl staff a myfyrwyr wireddu eu potensial llawn er lles y gymuned ehangach a'r gymdeithas yn ei chrynswth. Mae'r cyfeiriad a'r blaenoriaethau sydd i'w gwireddu wedi'u nodi yn y Cynllun Strategol hwn, a thrwy gyfrwng ein Map Strategaeth rydyn ni'n ceisio sicrhau bod holl agweddau'n gwaith yn cael eu cydbwyso a'u cymhathu â'i gilydd er mwyn sicrhau bod ein nodau a'n cyfrifoldebau academaidd yn cael eu bodloni.

Ein gwerthoedd sy'n rhoi'r fframwaith yr ydyn ni'n gweithio ynddo i wireddu'n blaenoriaethau strategol:

- Rydym yn gwerthfawrogi rhyddid meddwl a chwilfrydedd deallusol;
- Rydym yn gwerthfawrogi rhagoriaeth, arloesi a pherthnasedd cyfoes
  Dyma hanfodion prifysgol lwyddiannus.
- Rydym o blaid ethos gwaith moesegol, agored a chydweithredol;

Rydym yn mynnu'r lefelau uchaf o foeseg ac ymddygiad mewn ymchwil, addysgu, ysgolheictod a gweinyddu. Mae angen i ymddygiad y sefydliad ac unigolion gael eu seilio ar unplygrwydd, bod yn agored a thryloyw, gan gydnabod ein bod yn gallu cyflawni mwy gyda'n gilydd.

- Mae gennym ddiwylliant sydd wedi'i seilio ar urddas, parch a chwrteisi;
- Mae gennym ymrwymiad cryf i gydraddoldeb ac amrywiaeth;
  Mae'n polisïau yn nodi'n hymrwymiad i amgylchedd gweithio a dysgu cadarnhaol sy'n galluogi pawb i wireddu ei botensial.
- Rydym yn hybu cynaliadwyedd.
  Rydym yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau cymdeithasol corfforaethol ac o'r rhan hirdymor yr ydym yn ei chwarae yn y gymdeithas o'n hamgylch ac yn y gymdeithas ehangach. Rydym yn arfer y cyfrifoldeb hwn drwy'n gweithgareddau academaidd a thrwy reoli'r Brifysgol mewn modd cynaliadwy.

Gan ein bod yn ymwybodol o fuddiolwyr ein gwaith, rydyn ni wedi mynegi tair colofn gyd-ddibynnol y byddwn yn adeiladu'n llwyddiant a'n heffaith yn y dyfodol arnyn nhw:

- **Er mwyn hybu gwybodaeth**: ymgymryd ag ymchwil ac ysgolheictod o'r safon orau yn y byd;
- **Er mwyn ein myfyrwyr**: darparu profiad addysgol sy'n ysbrydoli ac yn cyfoethogi;
- **Er mwyn ein cymunedau**: creu effaith fyd-eang drwy'n rhagoriaeth academaidd.

Mae gwireddu'n hamcanion a'n blaenoriaethau yn dibynnu ar werthfawrogi ein pobl, bod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol, gwella'n partneriaethau a'n cyfraniad at y gymuned, darparu cyfleusterau a seilwaith rhagorol, sicrhau cynaliadwyedd ariannol a gwneud penderfyniadau cadarn ynghylch buddsoddi. Bydd cyfathrebu effeithiol yn y Brifysgol a'r tu allan iddi yn hanfodol.

STRATEGAETH PRIFYSGOL CAERDYDD

GWELEDIGAETH	**Byddwn yn un o'r prifysgolion mwyaf blaenllaw yn y byd a chanddi gymuned academaidd a fydd yn cael ei chydnabod ar sail ei rhagoriaeth a'i heffaith yn rhyngwladol**
GWERTHOEDD	• Rydym yn gwerthfawrogi rhyddid meddwl a chwilfrydedd deallusol • Rydym yn gwerthfawrogi rhagoriaeth, arloesi a pherthnasedd cyfoes • Rydym o blaid ethos gwaith moesegol, agored a chydweithredol • Mae gennym ddiwylliant sydd wedi'i seilio ar urddas, parch a chwrteisi • Mae gennym ymrwymiad cryf i gydraddoldeb ac amrywiaeth • Rydym yn hybu cynaliadwyedd
BLAENORIAETHAU	**Rhagoriaeth academaidd sydd â'i wreiddiau mewn ymchwil ac ysgolheictod o'r safon orau yn y byd, gyda phwyslais ar hyn o bryd ar gynyddu cymuned ôl-raddedig y Brifysgol a chynyddu rhychwant ac effaith ryngwladol y Brifysgol**
AMCANION	**ER MWYN EIN MYFYRWYR** **Profiad addysgol sy'n ysbrydoli ac yn cyfoethogi** • Yn cael ei bwydo a'i harwain gan ymchwil ac ysgolheictod sy'n arwain y byd • Yn cael ei chydnabod ac yn uchel ei bri gan gyflogwyr a chyrff proffesiynol • Wedi'i hadeiladu ar ddiwylliant o ragoriaeth a gwella • Yn cynnwys cymuned ôl-raddedig fywiog a chynyddol **ER MWYN HYBU GWYBODAETH** **Ymchwil ac ysgolheictod o'r safon orau yn y byd** • Yn uchel ei bri yn rhyngwladol oherwydd ei harwyddocâd, ei gwreiddioldeb a'i thrylwyredd • Wedi'i hadeiladu ar sylfaen gref o ddisgyblaethau sy'n cynnal grwpiau amlddisgyblaeth • Lleoliad dewisol gan yr ymchwilwyr a'r myfyrwyr graddedig gorau • Yn fagned i ddenu gwaith ymchwilio a datblygu rhyngwladol yng Nghymru **ER MWYN EIN CYMUNEDAU** **Creu effaith fyd-eang drwy'n rhagoriaeth academaidd** • Catalydd i wella datblygiad economaidd a chymdeithasol Cymru a'r Deyrnas Unedig • Yn cael ei chydnabod fel canolfan ddewisol ar gyfer addysg barhaus ac addysg broffesiynol • Yn uchel ei bri yn rhyngwladol am fwydo polisïau a gwasanaethau cyhoeddus • Yn adnabyddus am y gwerth sy'n deillio o drosglwyddo gwybodaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd
GALLUOGWYR	**Y BOBL a'r SEFYDLIAD** ● Hybu amgylchedd cefnogol i'r holl staff a myfyrwyr ● Meithrin arweinyddiaeth, grymuso a datblygu ● Cydnabod a gwerthfawrogi perfformiad da ● Cadw amgylchedd gweithio iach a diogel ● Datblygu prosesau cyflym ac effeithlon ● Cadw llywodraethiant da
	PARTNERIAETHAU a'r GYMUNED ● Cydweithio ag eraill i wella'n cyfraniadau yn lleol yn ogystal ag yn rhyngwladol ● Cydweithredu â phobl a sefydliadau o'r safon orau yn y byd ● Cadw perthynas gydol oes â'r cyn-fyfyrwyr
	YSTADAU a'r SEILWAITH GWYBODAETH ● Datblygu amgylcheddau ffisegol a rhithwir neilltuol sy'n hybu cydlynedd a rhagoriaeth i'r staff, y myfyrwyr a'r cydweithwyr ● Datblygu ymhellach ar seilwaith gwybodaeth gan gynnwys technoleg gwybodaeth a darpariaeth llyfrgell ar gyfer yr 21ain Ganrif
	BUDDSODDI ● Cynllunio ar gyfer twf cynaliadwy ● Gwneud buddsoddiadau dewisol yn unol â'r blaenoriaethau

	CYFATHREBU • Gwella ansawdd a gwerth y cyfathrebu i'r holl dderbynwyr ● Creu ymdeimlad o gymuned mewn amgylchedd gweithio a dysgu cadarnhaol ● Sicrhau mwy o ymwybyddiaeth, ymgysylltu a chefnogaeth ymhlith ein cymunedau lleol ● Ennill cydnabyddiaeth ryngwladol ar sail rhagoriaeth ac effaith academaidd

ER MWYN HYBU GWYBODAETH
Ymchwil ac ysgolheictod o'r safon orau yn y byd

- Yn uchel ei bri yn rhyngwladol oherwydd ei harwyddocâd, ei gwreiddioldeb a'i thrylwyredd
- Wedi'i hadeiladu ar sylfaen gref o ddisgyblaethau sy'n cynnal grwpiau amlddisgyblaeth
- Lleoliad dewisol gan yr ymchwilwyr a'r myfyrwyr graddedig gorau
- Yn fagned i ddenu gwaith ymchwilio a datblygu rhyngwladol

Mae'n gwaith ymchwil yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ac, mewn cydweithrediad ag amrywiaeth mawr o bartneriaid, mae'n cael ei gymhwyso er mwyn creu manteision gwirioneddol yn lleol a ledled y byd.

Tanlinellodd canlyniadau RAE 2008 mor gryf ac eang yw'n gwaith ymchwil ni. Aseswyd bod bron 60% o'r holl ymchwil o'r safon orau yn y byd neu'n rhagorol yn rhyngwladol, a dangoswyd bod 33 o'r 34 maes ymchwil a gyflwynwyd yn gwneud ymchwil a oedd yn cynnwys gwaith a oedd 'yn arwain y byd o ran gwreiddioldeb, arwyddocâd a thrylwyredd'.

Y sylfaen gref ac eang hon o ddisgyblaethau sy'n caniatáu i'r Ysgolion yng Nghaerdydd gyfuno'u harbenigedd er mwyn mynd i'r afael â materion mawr heddiw ac yfory drwy ymchwil amlddisgyblaeth. Roedd cynyddu'n gallu i sicrhau mwy o effaith drwy waith amlddisgyblaeth yn un o amcanion craidd y penderfyniad i uno Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru a Phrifysgol Caerdydd yn 2004 ac mae pwysigrwydd hyn yn parhau yn ein cynlluniau ymchwil at y dyfodol.

Rydyn ni'n anelu at sicrhau cydnabyddiaeth ryngwladol ar draws holl rychwant ein gweithgareddau ymchwil a hynny drwy fynd ar ôl rhagoriaeth mewn ymchwil sylfaenol, cymhwysol ac ymarferol. Rydyn ni o blaid rhagoriaeth yn y disgyblaethau unigol ac mewn ymchwil ryngddisgyblaethol, gan geisio rhag-weld a helpu i siapio agendâu ymchwil at y dyfodol.

Mae'n henw da am ymchwilio wedi'i adeiladu ar ragoriaeth ein staff academaidd a dilysrwydd ein diwylliant ymchwil. Mae'r rhagoriaeth hon wedi'i seilio yn ein Hysgolion a'n canolfannau ymchwil ar draws yr Ysgolion. Yn ei dro, mae'r enw da am ymchwil yn un o'r prif ffactorau wrth recriwtio staff a myfyrwyr ac mae hyn yn debyg o fod yn ystyriaeth fwyfwy pwysig wrth i'r farchnad fyd-eang mewn addysg uwch fynd hyd yn oed yn fwy cystadleuol. Wrth ddenu, datblygu a chadw staff sy'n gallu gweithio ar lefel sy'n gystadleuol yn rhyngwladol, ac wrth ehangu'n cymuned o fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, byddwn yn sicrhau seiliau cynaliadwy ar gyfer gwaith ymchwil. Mae'r ymchwilwyr hyn yn ffurfio mentrau a phartneriaethau cydweithredol gwerthfawr mewn academia yn ogystal â chysylltiadau â'r sector preifat, y proffesiynau a chyrff yn y sector cyhoeddus. Ochr yn ochr â'n huchelgais rhyngwladol felly, byddwn yn dangos y manteision pendant y mae prifysgol sy'n cael ei chydnabod yn fyd-eang, ac sy'n ddwys o ran ymchwil, yn dod â nhw i Gymru drwy ein cyfraniad at ddatblygu'r economi, y gymdeithas a diwylliant.

ER MWYN EIN MYFYRWYR
Profiad addysgol sy'n ysbrydoli ac yn cyfoethogi

- Yn cael ei bwydo a'i harwain gan ymchwil ac ysgolheictod sy'n arwain y byd
- Yn cael ei chydnabod ac yn uchel ei bri gan gyflogwyr a chyrff proffesiynol
- Wedi'i hadeiladu ar ddiwylliant o ragoriaeth a gwella
- Yn cynnwys cymuned ôl-raddedig fywiog a chynyddol

Mae ein myfyrwyr yn astudio mewn amgylchedd sy'n cael ei gyfoethogi gan ymchwil ac ysgolheictod o'r safon orau yn y byd drwy gynnwys y cwricwla, cysylltiadau ag ymchwilwyr a'r seilwaith ar gyfer ymchwil. Mae pob Ysgol yn agor eu myfyrwyr i fanteision a heriau addysg sy'n cael ei bwydo gan waith ymchwil mewn ffyrdd sy'n briodol i'w disgyblaethau. Mae llawer o'n myfyrwyr hefyd yn astudio mewn amgylchedd sy'n cael ei gyfoethogi gan gysylltiadau â'r proffesiynau - fel darparwr addysg uwch o bwys i'r proffesiynau, mae gennyn ni ryw 300 o gyrsiau sy'n cael eu haddysgu i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig sydd wedi'u hachredu gan fwy na 40 o gyrff proffesiynol. Mae'r Ysgolion hefyd yn ymgysylltu â'r proffesiynau perthynol a chyflogwyr graddedigion wrth sicrhau bod eu darpariaeth cyrsiau ym mlaen y gad o ran paratoi'r myfyrwyr at y dyfodol. Mae'r rhain i gyd yn nodweddion penodol ar brofiad myfyrwyr Caerdydd.

Rydyn ni'n rhoi pwyslais ar gefnogi ac ysbrydoli'n myfyrwyr tuag at gwblhau eu hastudiaethau'n llwyddiannus ac at gyflogaeth neu ragor o astudiaethau fel graddedigion. Mae'r rhan fwyaf o'r gefnogaeth hon yn canolbwyntio ar faterion academaidd ac yn cael ei rhoi gan ein Hysgolion. Rydyn ni hefyd yn parhau i ddarparu gwasanaethau cymorth a gwasanaethau canolog priodol o safon uchel. Byddwn yn parhau i roi sylw penodol i gefnogi myfyrwyr yn ystod eu blwyddyn gyntaf wrth iddyn nhw ymaddasu at ddysgu mewn amgylchedd prifysgol. Byddwn hefyd yn gosod pwyslais penodol yn ystod y cyfnod cynllunio ar wella profiad ein myfyrwyr ôl-raddedig gan sicrhau bod ein strwythurau'n caniatáu i'r staff yn ein Hysgolion, ein Hysgolion i Raddedigion, ein Canolfan i Raddedigion a'n cyfarwyddiaethau cymorth gydweithio'n effeithiol er lles ein myfyrwyr.

Mae ymgysylltu rhwng y Brifysgol a'n myfyrwyr yn holl-bwysig. Byddwn yn parhau i gefnogi datblygiadau parhaus ein Hundeb Myfyrwyr, sy'n cael ei arwain gan weithwyr proffesiynol. Rydym yn ymfalchïo yng nghyrhaeddiad Undeb y Myfyrwyr wrth gynnal a chyfoethogi myfyrwyr drwy eu cyfnod yn y brifysgol ac wrth gyfrannu at berthynas gadarnhaol rhwng y myfyrwyr a'r gymuned leol. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos ag Undeb y Myfyrwyr i wella'r cyfathrebu dwyffordd rhwng myfyrwyr a'r Brifysgol a byddwn yn parhau i gynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr ar bob lefel yn strwythur penderfynu'r Brifysgol.

O ran cyfansoddiad ein corff myfyrwyr, mae gennyn ni ddiwylliant cynhwysol lle mae amrywiaeth yn cael ei werthfawrogi. Rydyn ni'n anelu at recriwtio a chefnogi myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig a all fanteisio ar amgylchedd academaidd Prifysgol Caerdydd, ni waeth beth fo'u cefndir. Mae rhoi'n Strategaeth Ehangu Mynediad ar waith yn hanfodol ar gyfer yr ymrwymiad hwn. Mae'n myfyrwyr rhyngwladol yn chwarae rhan bwysig ym mhrofiad amrywiol a chyfoethog y Brifysgol. Rydyn ni'n gweithio'n galed i gynnal, a phan fo modd i ehangu, ein gwaith recriwtio rhyngwladol mewn marchnad hynod o gystadleuol - marchnad y mae proffil ymchwil

yn ffactor allweddol ynddi. Un flaenoriaeth uchel i'r Brifysgol yw cynyddu ein cymuned o ymchwilwyr ôl-raddedig yn unol â'r cymunedau o'r fath mewn sefydliadau eraill o'r safon orau yn y byd.

ER MWYN EIN CYMUNEDAU
Creu effaith fyd-eang drwy'n rhagoriaeth academaidd

- Catalydd i wella datblygiad economaidd a chymdeithasol Cymru a'r Deyrnas Unedig
- Yn cael ei chydnabod fel canolfan ddewisol ar gyfer addysg barhaus ac addysg broffesiynol
- Yn uchel ei bri yn rhyngwladol am fwydo polisïau a gwasanaethau cyhoeddus
- Yn adnabyddus am y gwerth sy'n deillio o drosglwyddo gwybodaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd

Mae effaith ein hymchwil a'n haddysg yn ganolog i fodolaeth y Brifysgol ac mae'n cael ei hategu drwy'n gwaith arloesi ac ymgysylltu. Drwy'n Hysgolion, eu hymchwil, eu staff, eu myfyrwyr a'u graddedigion, rydyn ni'n darparu manteision pendant cryf y tu hwnt i fyd addysg uwch a hynny fel rhan annatod o'n Gweledigaeth. Rydyn ni'n elfen holl-bwysig yn natblygiad cymunedau a rhanbarthau yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang. Fel prifysgol bwysig sy'n ddwys o ran ymchwil, rydyn ni'n gallu cyfrannu at ddatblygiad Cymru ar lefel uchel a hynny ar draws rhychwant eang o sectorau. Gallwn hybu Cymru yn rhyngwladol ac rydyn ni'n rhoi mantais gystadleuol i'r economi gwybodaeth yng Nghymru. Rydyn ni wedi ymrwymo i gyflawni'n cyfrifoldeb dros wneud cyfraniad o bwys i gyfoethogi'r economi, y gymdeithas a diwylliant yn lleol ac yn fyd-eang. Mae amlygu gwerth buddsoddi arian cyhoeddus mewn addysg uwch yn bwysicach nag erioed yn y cyfnod hwn o ddirwasgiad economaidd.

Mae'n cyfraniad yn cynnwys amrywiaeth mawr o weithgareddau, gan gynnwys ehangu mynediad i addysg uwch ymhlith grwpiau sydd heb ddigon o gynrychiolaeth, darparu graddedigion medrus iawn sy'n gallu addasu at gyflogaeth a'r proffesiynau, darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu personol a phroffesiynol parhaus, darparu addysg cyfrwng Cymraeg, cydweithio â busnesau, bwydo datblygiadau mewn polisïau a gwasanaethau cyhoeddus, trosglwyddo technoleg a masnacholi ymchwil, gweithio i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o wyddoniaeth, meithrin perthnasoedd â chymunedau a sefydliadau lleol, a dangos ymrwymiad i gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Rydyn ni'n cydnabod bod partneriaethau yn hanfodol wrth drosglwyddo manteision ein gweithgareddau y tu allan i'n waliau.

Fel presenoldeb o bwys yng Nghaerdydd, yn rhinwedd ein swydd fel cyflogwr ac addysgwr, mae'n perthynas â'r brifddinas yn arbennig o bwysig inni ac rydyn ni wedi ymrwymo i gynnal a datblygu ymhellach ar berthynas sydd o les i'r ddwy ochr.

GALLUOGWYR STRATEGOL

Bydd gwireddu'n hamcanion a'n blaenoriaethau yn dibynnu ar nifer o alluogwyr strategol ym maes pobl a'r sefydliad, partneriaethau a'r gymuned, ystadau a'r seilwaith gwybodaeth, buddsoddi a chyfathrebu.

Rydyn ni hefyd yn cydnabod ei bod yn ddigon posibl y bydd yr hinsawdd economaidd sydd ohoni yn effeithio ar wireddu'n hamcanion a'n blaenoriaethau. Byddwn yn parhau i adolygu'r blaenoriaethau a'r adnoddau sydd ar gael a bydd hynny, ynghyd â gwell effeithlonrwydd a rheolaeth ofalus ar gostau, yn sicrhau bod y Brifysgol yn parhau i ddilyn trywydd cynaliadwy.

Rydyn ni am arddel y nodweddion canlynol:

- Amgylchedd gweithio sy'n fywiog a chreadigol, lle mae amrywiaeth yn cael ei werthfawrogi, lle mae cyfle cyfartal yn cael ei sicrhau a lle mae pobl yn hyderus i weithredu ac arloesi;
- Seilwaith sy'n caniatáu gwireddu'n huchelgais a'n gwasanaethau sydd o'r safon orau yn y byd ac sy'n cael eu gwerthfawrogi gan bob defnyddiwr;
- Sylfaen adnoddau gref a chynaliadwy lle mae'r ffynonellau incwm yn cael eu defnyddio i'r eithaf a lle mae'r penderfyniadau ynghylch buddsoddi yn cael eu gwneud ar sail strategol.

Y Bobl a'r Sefydliad

Sefydliad sydd wedi'i seilio ar bobl ydyn ni. Mae staff sy'n uchel eu safon a'u cymhellion ym mhob swydd ledled y Brifysgol, yn ogystal â gallu'r staff a'r myfyrwyr i wireddu eu potensial, yn allweddol ar gyfer ein llwyddiant yn y dyfodol. Mae angen inni ddarparu amgylchedd sy'n ategu cyraeddiadau unigol a chyfun.

Yn sail i'n hamcanion, felly, mae angen inni wneud y canlynol:

- Hybu amgylchedd cefnogol i'r holl staff a myfyrwyr
- Meithrin arweinyddiaeth, grymuso a datblygu
- Cydnabod a gwerthfawrogi perfformiad da
- Cadw amgylchedd gweithio iach a diogel
- Datblygu prosesau cyflym ac effeithlon
- Cadw llywodraethiant da

Partneriaethau a'r Gymuned

Rydyn ni'n cydnabod mor bwysig yw cydweithio â phartneriaid i gynyddu effaith gweithgareddau'r Brifysgol er lles y gymdeithas. Mae'r partneriaethau hyn yn niferus ac amrywiol, ac yn rhan gyson o fywyd gwaith ym mhob rhan o'r Brifysgol. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys ein cysylltiadau cryf â'r gwasanaethau iechyd yng Nghymru, cysylltiadau â'r nifer fawr o broffesiynau sy'n cael eu cynrychioli gan ein disgyblaethau academaidd, cysylltiadau â diwydiant, busnes, y sectorau gwirfoddol a chyhoeddus, cysylltiadau â defnyddwyr ein hymchwil a chyflogwyr ein graddedigion, a chysylltiadau â phrifysgolion a sefydliadau rhyngwladol yn ogystal â chymunedau lleol. Mae cydweithio'n llwyddiannus â phartneriaid academaidd yn rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol hefyd yn holl-bwysig ar gyfer ein llwyddiant. Ar ben hynny,

mae perthynas gydol oes â'n cyn-fyfyrwyr yn ddolen gyswllt werthfawr i'r Brifysgol a'i myfyrwyr presennol â'r byd y tu hwnt i addysg uwch.

Yn sail i'n hamcanion, felly, mae angen inni wneud y canlynol:

- Cydweithio ag eraill i wella'n cyfraniadau yn lleol yn ogystal ag yn rhyngwladol
- Cydweithredu â phobl a sefydliadau sydd o'r safon orau yn y byd
- Cadw perthynas gydol oes â'r cyn-fyfyrwyr

Y Seilwaith Gwybodaeth

I wireddu'n huchelgais academaidd, mae angen inni ddatblygu'n seilwaith mewn modd cynaliadwy sy'n cydnabod y cydadwaith hanfodol sy'n bodoli erbyn hyn rhwng yr amgylchedd rhithwir a'r amgylchedd ffisegol. Mae angen inni ddarparu a chynnal seilwaith technolegol modern sy'n ategu'n gwaith ymchwilio ac addysgu ar y safle ac mewn mannau eraill. Mae angen inni sicrhau bod datblygiadau a mentrau mewn ystadau yn y dyfodol yn cyd-fynd â datblygu cyfleusterau o'r radd flaenaf yn y byd ar gyfer ymchwilio, dysgu ac addysgu. Mae angen inni ddarparu mynediad rhwydd i gyfleusterau llyfrgell modern ac edrych ar ffyrdd arloesol i ddarparu amgylcheddau dysgu newydd.

Yn sail i'n hamcanion, felly, mae angen inni wneud y canlynol:

- Datblygu amgylcheddau ffisegol a rhithwir neilltuol sy'n hybu cydlynedd a rhagoriaeth i'r staff, y myfyrwyr a'r cydweithwyr
- Datblygu ymhellach ar seilwaith gwybodaeth gan gynnwys technoleg gwybodaeth a darpariaeth llyfrgell ar gyfer yr 21ain Ganrif
- Sefydlu Uwch-gyfrifiadura Ymchwil @ Caerdydd (ARCCA), sef un o'r tri uwchgyfrifiadur mwyaf grymus mewn addysg uwch yn y Deyrnas Unedig, i roi cymorth arbenigol ar lefel uchel i'n Hysgolion.

Buddsoddi

Er mwyn llwyddo mae'n rhaid inni allu cynnal ein gweithgareddau craidd a buddsoddi mewn datblygiadau strategol. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae angen yn benodol inni ddangos gwerth am arian wrth inni ddefnyddio cyllid cyhoeddus a defnyddio'n hadnoddau yn effeithiol ac effeithlon er mwyn caniatáu twf cynaliadwy. Mae'n rhaid hefyd inni ddileu gwastraff, rheoli costau a hybu egwyddorion datblygu cynaliadwy yn ein holl weithgareddau.

Rydyn ni wedi nodi'r angen i gynyddu ac amrywio'r ffynonellau arian gan leihau o dipyn i beth ar ein dibyniaeth ar gyllid CCAUC. Mae yna gynlluniau i gynyddu ac i fanteisio i'r eithaf ar ffynonellau incwm ychwanegol drwy ddilyn llwybrau fel cynyddu grantiau a chontractau ymchwil, cronfeydd dyngarol, gweithgareddau eiddo deallusol a throsglwyddo gwybodaeth, perthnasoedd corfforaethol, a pherthnasoedd a phartneriaethau rhyngwladol.

Yn sail i'n hamcanion, felly, mae angen inni wneud y canlynol:

- Cynllunio ar gyfer twf cynaliadwy
- Gwneud buddsoddiadau dewisol yn unol â'r blaenoriaethau

Cyfathrebu

Mae'n holl amcanion a'n holl alluogwyr strategol wedi'u seilio ar yr angen i gyfathrebu'n effeithiol yn y Brifysgol a'r tu allan iddi. Mae angen inni sicrhau bod ein staff a'n myfyrwyr yn gwybod ble i gael gwybodaeth a'u bod yn gallu gwneud hynny'n gyflym. Mae angen inni sicrhau bod ein cyfathrebu â chynulleidfaoedd allanol yn cael ei dargedu, ei fod yn briodol, yn gywir ac yn amserol er mwyn i'r neges fod yn berthnasol i'r derbynnydd ac er mwyn i'r wybodaeth gael ei chyfleu drwy'r sianel fwyaf addas. Mae angen inni sicrhau bod ymgysylltu â ni bob amser yn brofiad cadarnhaol ac annog y staff a'r myfyrwyr i gydnabod eu cyfrifoldebau i gyfathrebu'n effeithiol.

Mae angen felly inni wneud y canlynol:

- Gwella ansawdd a gwerth y cyfathrebu i'r holl dderbynwyr
- Creu ymdeimlad o gymuned mewn amgylchedd gweithio a dysgu cadarnhaol
- Sicrhau mwy o ymwybyddiaeth, ymgysylltu a chefnogaeth ymhlith ein cymunedau lleol
- Ennill cydnabyddiaeth ryngwladol ar sail rhagoriaeth ac effaith academaidd